

# COMISIYNWYR YR HEDDLU A THROSEDDAU

## BWLETIN COMISIYNWYR YR HEDDLU A THROSEDDAU CYMRU

### Rhif 13 – 24.10.12

Mae'r 13eg bwletin hwn y diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau rheolaidd i'ch hysbysu ynglŷn â datblygiadau i gyflwyno comisiynwyr yr heddlu a throseddau'r mis nesaf. Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys:

- Diweddariad ar gyfathrebiadau PCC Y Swyddfa Gartref
- Etholiadau
- Manylion araith y Gweinidog dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol i Gynhadledd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau'r Gyfnewidfa Polisi
- Digwyddiad Croeso Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau; a Digwyddiad Cenedlaethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau
- Diweddariad Paneli Heddlu a Throseddau
- Manylion gwaith parhaus y prosiect Cymunedau Dyfodol mwy Diogel
- Diweddariad gan y Rhaglen Ymyraethau Cyffuriau
- Gwobrau Tilley

### Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau: Diweddariad cyfathrebiadau

#### Gwybodaeth ymgeiswyr Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau

O 26 Hydref bydd y cyhoedd yn gallu teipio eu cod post i [www.choosemypcc.org.uk](http://www.choosemypcc.org.uk) a gweld manylion am ymgeiswyr sy'n sefyll i fod yn Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn eu hardal leol. Gall y cyhoedd hefyd ffonio 0800 1 070 708 i archebu copi am ddim wedi argraffu o wybodaeth yr ymgeiswyr.

Er bod ymgyrch hysbysebu'r Swyddfa Gartref yn dod i ben oherwydd enciliad, bydd gwefan choosemypcc yn dal i gael ei hyrwyddo ar gardiau pleidleisio ac yn llyfryn y Comisiwn Etholiadol sy'n cael ei ddanfôn at bob cartref yng Nghymru a Lloegr. Bydd [gwefan y Swyddfa Gartref](#) yn dal i fod yn ganolbwynt ar gyfer gwybodaeth ar Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a bydd rhagor o wybodaeth ar weithgaredd cyfathrebiadau'r Comisiynwyr ar gael ym [mhecyn briffio'r ymgyrch](#).

Gallwch hefyd gael y diweddariad ar ddatblygiadau diweddar ar y polisi troseddau a phlismona ehangach trwy [ddiweddariad newyddion](#) heddlu a throseddau'r Swyddfa Gartref.

### Etholiadau

Caeodd enwebiadau i fod yn ymgeisydd yn etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar 19 Hydref.

Mae cardiau pleidleisio wedi eu hanfon allan ac yn cynnwys manylion gwefan yr ymgeisydd a llinell ffôn i ofyn am gopïau papur.

Mae gan ymgeiswyr tan hanner nos ar 24 Hydref i dynnu eu hymgeisyddiaeth yn ôl os ydynt yn

dymuno; ac yn dilyn hynny byddwn yn cyhoeddi gwefan yr ymgeisydd ar 26 Hydref ar [www.choosemypcc.org.uk](http://www.choosemypcc.org.uk)

Mae copïau papur ar gael trwy ffonio 0800 1 070708.

Mae'r etholiad dim ond dair wythnos i fwrdd, ar 15 Tachwedd. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn dechrau yn eu swyddi ar 22 Tachwedd.

## **Araith Damian Green i'r Gynhadledd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 23 Hydref**

Rhoddodd Damian Green, y Gweinidog dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol, y brif arraith ar Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i'r Gynhadledd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn y Gyfnewidfa Polisi ar 23 Hydref.

Yn yr arraith, esboniodd y Gweinidog dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol yr egwyddorion sy'n ategu'r polisi ar Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Sefydlodd y Gweinidog hefyd weledigaeth y Llywodraeth i wella cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion, gan esbonio pam fod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn debygol o fod eisiau blaenoriaethu dioddefwyr, gan gynnwys manylion y ddyletswydd newydd arfaethedig ar Gomisiynwyr i sicrhau fod dioddefwyr yn cael mwy o ddweud yn y gosb i rai troseddwr. Y nod yw i Gomisiynwyr ddechrau comisiynu gwasanaethau dioddefwyr yn 2014.

Mae testun llawn yr arraith ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref:

<http://www.homeoffice.gov.uk/media-centre/speeches/damian-green-policy-exchange>

## **Digwyddiad Croeso Comisiynwyr**

Bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn gwahodd yr holl Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sydd newydd eu hethol i Ddigwyddiad Croesawu yn y Swyddfa Gartref ar 3 Rhagfyr 2012. Bydd hyn yn darparu'r achlysur ffurfiol cyntaf i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gwrrd â'r Ysgrifennydd Cartref a'i thîm gweinidogol, ac i drafod sut y byddant yn cydweithio er mwyn taelo'r detholiad o heriau y mae gwasanaeth yr heddlu a'n cymunedau yn wynebu i dacio ac atal troseddau.

Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn derbyn gwahoddiad. Mae Gweinidogion yn awyddus i sicrhau fod agenda'r digwyddiad yn gosod y sylfaeni i lunio ac adeiladu perthynas weithredol effeithiol gyda'r Swyddfa Gartref, Llywodraeth ehangach a gweinidogion.

## **Cyfarfod cenedlaethol APCC 23 Ionawr**

Bydd yr APCC yn gwahodd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i gyfarfod cenedlaethol ar 23 Ionawr yng nghanol Llundain. Mae'r rhaglen ar gyfer y digwyddiad hwn yn cael ei datblygu ar hyn o bryd gan yr APCC, a bydd rhanddeiliaid eraill yn cael gwahoddiad i gyfrannu yn ddibynnol ar flaenoriaethau a materion allweddol a nodwyd gan y Comisiynwyr. Bydd y digwyddiad yn darparu cyfle i Gomisiynwyr a'u staff glywed gan ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar beth sy'n gweithio'n dda, a beth ellid ei wneud i wella'r ddarpariaeth

Yn ogystal, bydd yr APCC yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau cyfarwyddo a seminarau cenedlaethol trwy gydol 2013 i ddarparu cyfle i ystod lawn o randdeiliaid a phartneriaid ymgysylltu gyda chomisiynwyr ar faterion o ddiddordeb. Bydd y rhaglen lawn ar gyfer y digwyddiadau hyn yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd Tachwedd ar wefan yr APCC. Hoffai'r APCC glywed gan unrhyw sefydliad sy'n fodlon cyfrannu i'r digwyddiadau hyn ar draws y sectorau cyfiawnder troseddol, plismona a diogelwch cymunedol. I gofrestru diddordeb neu am ragor o wybodaeth, anfonwch e-bost at

[enquiries@apccs.police.uk](mailto:enquiries@apccs.police.uk).

Mae'r APCC wedi cynhyrchu rhestr wirio 100 niwrnod cyntaf i Gomisiynwyr yn ddiweddar:

<http://www.apccs.police.uk/page/100-days-checklist>

## Diweddariad paneli heddlu a throseddau

Gwyddom fod nifer o baneli'r heddlu a throseddau wedi bod yn cwrdd yn ddiweddar i ystyried gweithdrefnau paneli a'r potensial ar gyfer cydweithredu ychwanegol. Gan fod cyfetholiad atodol (tu hwnt i'r ddau aelod annibynnol gofynnol) angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Cartref, fe anogir unrhyw banelau sydd wedi nodi eu bod yn bwriadu cyfethol ac nad ydynt wedi cyflwyno cais ffurfiol eto i wneud hynny cyn gynted â phosibl.

Ychwanegwyd y nodyn canllaw yn sefydlu'r broses graffu ar gyfer penodiadau prif gwnstabl yn ddiweddar i adran panel yr heddlu a throseddau gwefan y Swyddfa Gartref:

<http://www.homeoffice.gov.uk/police/police-crime-commissioners/partners/police-and-crime-panels/>

Disgwylir cyflwyno rheoliadau yn cyflwyno deddfwriaeth bresennol llywodraeth leol a fydd yn berthnasol i'r paneli yng Nghymru gerbron y Senedd yn yr wythnosau i ddod.

## Cytundebau grant

Bydd llythyrau a chytundebau grant ar gyfer Grant Panel yr Heddlu a Throseddau yn cael eu cyhoeddi i awdurdodau lletyol yn fuan. Gwneir taliadau ôl-ddyledus. Yn 2012-13, bydd awdurdodau lletyol yn derbyn taliad sengl ym Mawrth 2013.

Ar gyfer unrhyw ymholiadau yn ymwneud â chyllid ar gyfer paneli'r heddlu a throseddau, anfonwch e-bost at: [PCCPartnersEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk](mailto:PCCPartnersEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk)

## Cymunedau Dyfodol mwy Diogel – newyddion gan bartneriaid

Lansiodd y Cyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (NCVYS) eu Siarter Ieuenctid ar 11 Hydref. Mae'r siarter ieuenctid yn ymwneud ag annog y Comisiynwyr i ymlynu i ymgysylltu â phobl ifanc, ac i wrando ar eu barnau mewn modd ystyrlon. Mae'n darparu egwyddorion y gallai'r Comisiynwyr weithio arnynt, gyda phob un ohonynt yn dod gan bobl ifanc. Mae nifer o sefydliadau eisoes wedi addo cefnogi'r siarter ac ar ddiwrnod y lansiad roedd pum ymgeisydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau eisoes wedi cofrestru.

Ceir gwybodaeth ar y siarter ieuenctid yma: <http://pccyouthcharter.wordpress.com/>

Cynhaliwyd gweithdy yn ddiweddar gyda chynrychiolwyr y sector cyffuriau i nodi pa weithredoedd allai Drugscope ddwyn ymlaen fel partner yn Cymunedau Mwy Diogel. Nod y sesiwn oedd helpu cefnogi cyflawniad ymagweddau sy'n taclo troseddau yn ymwneud â chyffuriau; o Ebrill 2013 bydd y Rhaglen Ymyraethau Cyffuriau (DIP) yn dod i ben yn effeithiol fel rhaglen a reolir ac a gyflawnir yn genedlaethol.

## Strategaeth cyffuriau – diweddariad lleihau galw a rheoli troseddwyd camddefnydd cyffuriau

Mae'r ail fwletin mewn cyfres i hysbysu ardaloedd lleol am waith yn ymwneud â rheoli troseddwyd camddefnydd cyffuriau wedi ei chyhoeddi bellach. Mae hyn yn unol â'r bennod "Lleihau Galw" o'r Strategaeth Gyffuriau, ac yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer ardaloedd lleol ar y cysylltiadau rhwng y Rhaglen Ymyraethau Cyffuriau (DIP) a deddfwriaeth newydd ar yrru ar gyffuriau; cysylltiadau i'r

adroddiad cynhadledd Rheoli Troseddwy'r Integredig; diweddariad ar daliadau yn ôl canlyniadau; diweddariad ar gyllid iechyd cyhoeddus yn 2013/14; a'r ystadegau trin cyffuriau diweddaraf gan yr Asiantaeth Driniaeth Genedlaethol. Gallwch gael mynediad i'r bwletin trwy wefan y Swyddfa Gartref: <http://www.homeoffice.gov.uk/publications/crime/reducing-reoffending/ds-reducing-demand-updates/>

## Gwobrau Tilley

Rhoddir Gwobrau Tilley yn flynyddol, ac ers 14 o flynyddoedd buont yn cydnabod prosiectau dyfeisgar o frwydro yn erbyn troseddau ble mae'r heddlu, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd yn gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd i ymdrin â phroblemau troseddol lleol. Roedd ceisiadau eleni yn ymdrin â phroblemau a oedd yn cynnwys troseddau ar raddfa fawr, trais gangiau, alcohol a throseddau cyffuriau ac ymddygiad anghymdeithasol.

Mae pleidlais gyhoeddus gwobrau Tilley yn agored tan 2 Tachwedd.

Gallwch bleidleisio am eich hoff brosiect a roddwyd ar y rhestr fer drwy ymweld â gwefan Y Swyddfa Gartref yma <http://www.homeoffice.gov.uk/crime/partnerships/tilley-awards>. Anogwch gydweithwyr, cyfeillion a theulu i ymweld ac i bleidleisio hefyd. Gallwch bleidleisio drwy ddefnyddio eich ffôn symudol neu ffôn deallus.

Cyhoeddir y prosiect llwyddiannus ynghyd â'r tri phrosiect uchel yn dilyn beirniadaeth gan banel arbenigol yn Rhagfyr.

Rydym yn anfon bwletinau rheolaidd trwy gydol cyflwyniad y Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Cysylltwch â ni yn [PCCPartnersEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk](mailto:PCCPartnersEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk) i gael gwybod beth sy'n digwydd, beth sydd ar y gweill a'r cyfleoedd i chi gymryd rhan. Byddwn hefyd yn ymateb i unrhyw ymholiadau neu gwestiynau sydd gennych.

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau a chwestiynau trwy gydol y broses ddatblygu a gweithredu.